

Cofnodion ymgeiswyr: etholiadau llywodraeth prif ardal a chyngor cymuned yng Nghymru

Trosolwg

1.1 Mae'r adnodd yma wedi ei greu i gynorthwyo Swyddog Priodol y cyngor i annog a monitro cyflwyno cofnodion gwariant etholiadol a datganiadau mewn etholiadau llywodraeth prif ardal a chyngor cymuned.¹ Dylid ei ddarllen gyda'r canllawiau manwl ar gofnodion gwarant ymgeiswyr, sydd ar gael ym Mhennod 2 [Rhan F](#) canllawiau'r Comisiwn i Swyddogion Canlyniadau

1.2 Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at y Swyddog Priodol.

Cofnodion Ymgeiswyr

1.3 Mae'n rhaid i asiantiaid ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau llywodraeth prif ardal gyflwyno cofnod gwariant ymgeisydd i chi, ynghyd ag anfonebau a derbynebau perthnasol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r dogfennau hyn yw 35 diwrnod ar ôl datgan y canlyniad (heblaw bod y diwrnod olaf o'r cyfnod yn syrthio ar benwythnos neu wyl y banc, yn yr achos hwnnw, mae'r diwrnod olaf yn symud i'r diwrnod gwaith nesaf).¹

1.4 Mae hefyd gofyn bod ymgeiswyr a'u hasiantiaid yn cyflwyno datganiadau ar wahân yn cadarnhau bod cofnod gwariant etholiadol yr ymgeisydd yn gyflawn a chywir. Mae'n rhaid i ddatganiad yr asiant etholiadol gael ei gyflwyno ar yr un pryd a'r cofnod. Mae'n rhaid i ddatganiad yr asiant etholiadol gael ei gyflwyno ar yr un pryd a'r cofnod. Fodd bynnag, os yw'r ymgeisydd ddim yn y DU pan fo'r cofnod yn cael ei gyflwyno i chi, mae'n rhaid iddynt wneud y datganiad o fewn 14 diwrnod calendar o ddod yn ôl i'r DU.²

1.5 Mewn etholiadau cyngor cymuned, mae'n rhaid i ymgeisywr gyflwyno eu cofnodion gwariant etholiadol, a'r datganiad gan yr ymgeisydd i chi,³ Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r dogfennau hyn yw 28 diwrnod clendr ar ôl i'r etholiad gael ei gynnal (heblaw bod y diwrnod olaf o'r cyfnod yn syrthio ar benwythnos neu wyl y banc, yn yr achos hwnnw, mae'r diwrnod olaf yn symud i'r diwrnod gwith nesaf). Mae hyn os yw'r etholiad wedi'i frwydro ai peidio.⁴

¹ Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i unrhyw etholiad heblaw'r rhai a restrir.

Archwilio cofnodion a datganiadau

1.6 Mae'n rhaid i chi gadw copi o bob cofnod gwariant etholiadol, datganiad ac unrhyw ddogfennau eraill am:

- ddwy flynedd o'u derbyn ar gyfer etholiadau llywodraeth prif ardal⁵
- un flwyddyn o'u derbyn ar gyfer etholiadau cyngor cymuned⁶

1.7 Yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n rhaid i chi hefyd sicrhau bod copïau ar gael i'r cyhoedd heb godi tâl, a chaniatau copïo'r dogfennau hyn am ffi ragnodedig. Mae'n rhaid i chi olygu unrhyw wybodaeth bersonol ar y ffurflen gwariant, y datganiad ac unrhyw ddogfennau ategol. Bydd angen i chi sicrhau bod gennych ddull priodol o olygu, a all gynnwys defnyddio meddalwedd golygu arbennig. Dylai Swyddog Diogelu Data'r cyngor allu rhoi cyngor i chi ar olygu gwybodaeth bersonol. Dylid nodi eich polisïau ar olygu hefyd yn eich cynllun ar gadw dogfennau.

1.8 Mae ein hadnodd ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a'r Bil Diogelu Data yn cynnwys rhagor o wybodaeth am storio data personol a chadw dogfennau, yn cynnwys beth y dylid ei gynnwys mewn polisi ar gadw dogfennau.

1.9 Mae canllawiau manwl ar gadw ac archwilio cofnodion a datganiadau ymgeiswyr a ddarperir ym Mhennod 2 [Rhan F - ar ôl datgan y canlyniad](#).

Beth ddylai'r Swyddog Priodol wneud i fonitro ac annog cyflwyno cofnodion a datganadau gwariant?

1.10 Dylech wneud y canlynol:

- cyfeirio ymgeiswyr ac asiantiaid cyn gynted â phosibl i'n [canllawiau](#)
- siarad gyda'r Swyddogion Canlyniadau er mwyn hwyuso atgoffa ymgeiswyr ac asiantiaid cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymgyrch bod angen iddynt gadw cofnodion cywir at ddibnion llenwi a chyfwyo eu cofnod a'u datganiadau gwariant.
- sicrhau bod gweithdrefn clir, sydd wedi'i rannu gydag ymgeiswyr ac asiantiaid, ar gyfer danfon a logio cofnodion.
- er mwyn sicrhau llwybr archwilio clir, cadw cofnod o pryd mae dogfennau cofnod gwariant ymgeiswyr yn cael eu derbyn.

Beth sy'n digwydd os na chaiff cofnod gwariant ei gyflwyno?

1.11 Er nad oes gofyn i chi atgoffa ymgeiswyr ac asiantiaid nad ydynt wedi cyflwyno eu cofnodion gwariant, mae'n arfer da i wneud. Bydd atgoffa yn creu llwybr archwilio ar gyfer ymchwilio eu gymryd camau pellach. Argymhellir bod unrhyw nodiadau atgoffa yn cel eu hanfon cyn cymryd unrhyw gamau, ac er

mwyn cadw llwybr archwilio clir, dylech gadw cofnod o urhyw nodiadau atgoffa a anfonir gennych.

1.12 Nodir canlyniau peidio â chyflwyno cofnodin neu ddatganiadau isod.

Rhwystro ymgeiswyr etholedig rhag eistedd neu bleidleisio

1.13 Os yw ymgeisydd wedi ei ethol ond nad yw wedi cyflwyno cofnod gwariant a/neu ddatganiad erbyn y dyddiad cau, yn byddant yn cael eu rhwystro rhag eistedd neu bleidleisio a gallant fod yn destun fforffedu neu ddirwy o £50 os ydynt yn gwneud.⁷

1.14 Gellir ymdrin ag ymgeisydd drwy weithdrefnau sifil a fforffedu, neu weithdrefnau troseddol trwy lys yr ynadon (fel arfer gan Wasanaeth Erlyn y Goron), lle bydd ymgeisdd a gaiff euogfarn yn destun dirwy. Caiff y rhwystr rhag eistedd a phleidleisio ei godi unwaith i'r cofnod gael i gyflwyno neu bod yr ymgeisydd a/neu'r asiant etholiadol wedi cael rhyddhad oo hyn gan y llysoedd.

1.15 Gallai rhybuddio ymgeisydd llwyddiannus o ganlyniadau peidio â chydymffurfio fod y ffordd mwyaf effeithiol i chi sicrhau bod cofnodion a datganiadau yn cael eu cyflwyno ar amser.

Troseddau

1.16 Os yw ymgeisydd wedi ei ethol neu beidio, mae methu â darparu cofnod gwariant neu ddatganiad heb reswm awdurdodedig yn drosedd.

1.17 Yr unig gosb sydd ar gael i'r troseddau hyn yw erlyn troseddol. Mae gan y Comisiwn Etholiadol hawl cyfreithiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r rheolau ar wariant a rhoddion ymgeiswyr, ond dim pwerau cosbu mewn achos o dorri'r rheolau.

1.18 Gall unrhyw un, gan gynnwys chi neu'r Comisiwn Etholiadol gyfeirio achosion honedig o dorri'r rheolau at yr heddlu i'w hymchwilio gan yr heddlu.

1.19 Pan fyddwch chi neu rhywun arall yn cyfeirio honiad o dorri'r rheolau i ni, byddwn yn ei ystyried yn ôl y manylion. Byddwn ond yn cyfeirio'r achod i'r heddlu os yw'n ymddangos ei fod yn gyesur ac ym mudd y cyhoedd i wneud hynny. Mae ffactorau allau bwyntio at gyfeirio'r achos i'r heddlu yn cynnwys:

- os oedd yr ymgeisydd wedi'i osod yn uchel (e.e. yn gyntaf neu'n ail)
- os cafodd yr ymgeisydd gyfran sylweddol o'r bleidlais
- unrhyw ystyriaeth budd y cyhoedd perthnasol arall

1.20 Pan fyddwch chi'n penderfynnu p'un a i gyfeirio achos honedig o dorri'r rheolau i'r heddlu, ry'n ni'n argymhell eich bod yn ystyried yr un ffactorau cyn gwneud penderfyniad, gan fydd yr heddlu ond yn cychwyn ymchwiliad os fyddant yn penderfynnu ei fod ym midd y cyhoedd i wneud.

¹ Adran 81 (1) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (RPA) 1983

² Adran 82 RPA 1983

³ Adran 81 RPA 1983

⁴ Paragraff 3 Atodlen 4 RPA 1983

⁵ Adran 89 RPA 1983

⁶ Atodlen 4, Paragraff 8 RPA 1983

⁷ Y gosb yw £50 am bob diwrnod eistedd / pleidleisio - ar gyfer etholiadau llywodraeth prif ardal gweler Adran 85 (2), RPA 1983 ac ar gyfer ymgeiswyr cyngor cymuned gweler Atodlen 4, Paragraff 4, RPA 1983.